## Rhyfeddodau Dydd yr Atgyfodiad

Bydd myrdd o ryfeddodau
Ar doriad bore wawr,
Pan ddelo plant y tonnau
Yn iach o'r cystudd mawr,
Oll yn eu gynau gwynion,
Ac ar eu newydd wedd,
Yn debyg idd eu Harglwydd
Yn dod i'r lan o'r bedd.

***David George Jones***

## Atgyfodiad y Meirw

Yn 1 Corinthiaid 15:35-44 try'r apostol i drafod sut y mae atgyfodiad yn bosibl o bydredd a dadfeiliad marwolaeth. Cwestiwn ffôl, meddai, pan fo natur ei hun yn dangos posibilrwydd y peth mewn bywyd newydd yn tarddu o had wedi ei gladdu yn y ddaear a marw, yn fywyd gwahanol ac eto'r un. Y fath amrywiaeth sydd o'r un peth! Yn gnawd (y gwahanol greaduriaid), yn gyrff (nefol ac ysbrydol), yn ogoniant (yn haul a lloer a sêr). Felly'r corff a godir. Mae'n wahanol iawn i'r corff sy gennym, yn anllygredig, yn ogoneddus, yn nerthol, yn ysbrydol. Os felly, os nad y corff darfodedig ac anianol hwn fydd gennym, paham mai atgyfodiad y corff yw'r athrawiaeth Gristnogol ac nid anfarwoldeb yr enaid fel y dysgai athronwyr Groeg? Am hyn: mai chi eich hun a fyddwch yn y byd nesaf, y person unigol ag ydych, yn anhraethol fwy gogoneddus, os yng Nghrist, ac nid cysgod disylwedd neu ddiferyn yn y môr.

***Emyr Roberts***